


MyST



Drwy helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
i gadw cysylltiad ac aros yn eu cymunedau lleol



Beth yw MyST ac ar gyfer pwy mae?



Mae MyST ('My Support Team') yn fodel gofal lechyd Meddwl blaengar sy'n cynnig amgen i osod plant a phobl ifanc gydag anghenion Gofal lechyd cymhleth mewn gofal preswyl tu allan i'r sir. Mae'n wasanaeth wedi'i dargedu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd mewn risg neu a gafodd eu lleoli mewn darpariaethau preswyl oherwydd eu hanghenion lechyd Meddwl cymhleth.

Drwy ei leoliadau yn y gymuned, mae'n darparu ymyriadau lechyd Meddwl pwrpasol a chymhleth ar draws holl rwydwaith cefnogaeth y plentyn, mor ddwys ag sydd angen, gyda model ymyriad sy'n anelu canolbwyntio ar effeithio ar ddatblygiad a gwytnwch y plentyn.

Rhai o'r elfennau allweddol sy'n galluogi model gwasanaeth tebyg i MyST i fod yn llwyddiannus yw:

- Gweithio gyda'r holl rwydwaith cefnogaeth o amgylch y plentyn
- Arbenigedd mewn ymyriadau a strategaethau seicolegol a gaiff eu llywio gan ddamcaniaeth

- Strwythurau cefnogaeth ac ymarfer myfyriol sefydlog
- Dull cydweithio, rhagweithiol a chynhwysol at weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Cefnogaeth ar-alwad 24 awr ar gyfer gofalwyr maeth, teuluoedd geni a phobl ifanc

- Dull gweithredu system-gyfan

Mae MyST yn rhan o Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwent i ddarparu gofal lechyd Meddwl effeithiol a lleol i blant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth. Bydd ar gael yn y 5 ardal awdurdod lleol yng Ngwent.

Sut mae MyST yn gweithio



- Drwy helpu plant a phobl ifanc (5-18 oed) gydag anghenion iechyd Meddwl cymhleth i symud ymlaen yn gadarnhaol gyda'u bywydau
- Drwy gyfuno gofal maeth therapiwtig gyda gofal cymdeithasol, gofal iechyd, addysg a theuluoedd geni fel partneriaid yn y datrysiad
- Drwy gynyddu sefydlogrwydd a sicrwydd cartref, ysgol a bywyd teulu
- Drwy eu helpu i aros a pharhau mewn addysg a galwedigaethau
- Drwy wella cyfleoedd bywyd ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth
- Drwy helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gadw mewn cysylltiad ac aros yn eu cymunedau lleol.

Mae [ENW] wedi fy helpu gyda fy mhryder .. fy ymddygiad a fy mherthynas gyda fy rheulu hefyd Dyfyniad gan berson ifanc




Mae MyST yn cyflwyno neges wahanol – y gellir ymddiried yn y byd oedolion. Mae sefydlogrwydd lleoliad yn rhoi profiad iddynt sydd â budd parhaus – blas ar normalwydd. Athro yn Nhorfaen

Gwaith Therapiwtig




Ynys Siarcod: Gweithgaredd lle mae'r person ifanc yn dewis cymeriad i gynrychioli rhywun penodol yn eu bywyd e.e. rhiant geni/brawd neu chwaer/gofalwr maeth. Maent yn penderfynu ble ar y map i'w rhoi. Mae'r gweithgaredd yn codi cwr y llen ar sut mae'r person ifanc yn gweld rhai pobl a rhai perthnasoedd.

Robot mewn gofal maeth. Ei sglodyn cyfrifiadur – popeth mae angen i oroesi a ffynnu mewn gofal.



Sut mae MyST yn gweithio



Adborth o Arolwg Pobl Ifanc 2019

Mae'n bwysig i MyST gasglu adborth gan ein pobl ifanc.
Fe wnaethom ofyn iddynt sut y teimlent am MyST a'r pethau
rydym eisiau ceisio roi help iddynt gyda nhw.

*"Deall fy mherthynas
gyda fy mam. Rwy'n
ei gwerthfawrogi ac
yn ei pharchu fwy"*

*"Mae MyST wedi
gwneud pethau'n
fwy cadarnhaol ac
wedi rhoi hyder i fi"*

*"Cael mwy o
bobl i siarad
gyda nhw"*

*"Mae MyST
wedi fy helpu
i reoli newid"*

*"Gweld fy Mam bob
dwy wythnos [diolch i
MyST a fy ngweithiwr
cymdeithasol]"*

*"Bod mewn
cartref maeth yn
lle preswyl."*

*"Mae MyST wedi
fy helpu i reoli fy
emosiynau"*

*"Medru gwneud
penderfyniadau da"*

Cysylltwch â:

Jennie Welham
Cyfarwyddwr Rhaglen
Rhanbarthol

E-bost: welhaj@caerphilly.gov.uk
Ffôn: 01495 764 680

Cariad Warrilow
Cydylynydd Systemau ac
Adnoddau Rhanbarthol

E-bost: warric@caerphilly.gov.uk
Ffôn: 07526 201207

Dr Jaël Hill
Cyfarwyddwr Clinigol Rhanbarthol

Email: Jael.Hill@wales.nhs.uk
Ffôn: 07971495190